# 21. Y SEITHFED YMADRODD – I'th ddwylo di

**Darllen:** Luc 23: 46

Rhyngddo ef a'i Dad oedd yr ymadrodd cyntaf o'r groes, ac at ei Dad y cyfeiriodd ei air olaf hefyd. Roedd y Ddeddf yn bendant: '*Melldigedig yw'r un sy'n marw ar bren*' (Deut. 21: 23). Ond, oddi ar y pren yn y canol, galwodd y melldigedig Un ar Dduw yn gwbl hyderus. Trodd unwaith eto at y salmau, Salm 31 y tro hwn: '*Cyflwynaf fy Ysbryd i'th law di; gwaredaist fi, Arglwydd y Duw ffyddlon.*' Ond newidiodd Iesu rhai o'r geiriau, wrth ddweud, '*Dad*' yn lle '*Arglwydd y Duw ffyddlon'*. '*Abba*' yw'r gair, sef '*Dada*'. Cofiaf fod mewn parc gwledig yn nyffryn yr Iorddonen ar ddydd o wyliau a gweld merch fach yn cerdded tuag at y pwll nofio gyda'i thad a chynnwrf ac ansicrwydd yn gymysg ar ei hwyneb; daliodd yn dynn iawn yn llaw ei thad, gan barablu yn ddi-stop mewn Hebraeg; roeddwn yn deall un gair a ddefnyddiwyd ganddi yn barhaus, '*Abba, Abba, Abba'*. Gwyddai ei bod yn ddiogel, dim ond iddi gadw ei llaw yn llaw Abba. Fe wynebodd Iesu angau fel plentyn yn mynd i gysgu, yn ddiogel ym mreichiau ei riant.

Pwrpas hyn i gyd yw cynnig i ni'r un berthynas gyda'r Tad, yr un diogelwch trwy'r groes, neu, yn hytrach, trwy'r Un a fu ar y groes. Cawn gerdded yn y goleuni at y Goleuni am iddo ef ddewis mynd i'r tywyllwch trosom. Cawn fod yn blant i Dduw am fod Mab Duw wedi dod fel Mab y Dyn a mynd i'r groes a'r bedd '*erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth ni*.'

'*Codwyd tair croes yno y dydd hwnnw a rhaid i ni ddewis un ohonynt drosom ni ein hunain. Un yw croes y Gwaredwr di-bechod, na all fod yn eiddo i ni. Croesau anedifeirwch ac edifeirwch yw'r lleill. Rhaid i ni ddewis rhwng y ddwy hyn.*'
*(William Temple, 1881-1944).*

**Gweddi:**
*Cyflwynwn ein hunain i'th ddwylo di, O Dduw,*
*gan ymddiried yn dy ras.*
*Byw neu farw, llawen neu drist,*
*cawn fod yn wastad yn dy ofal di,*
*yng nghwmni Iesu Grist ein Gwaredwr. Amen.*